IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 7 HYDREF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Hudson |

## 11 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 12 : CAIS AM NEWID TRWYDDED SAFLE - CANOLFAN IÂ CYMRU

PENDERFYNWYD – Gohirio penderfyniad ar y cais hwn am 1 wythnos.

## 13 : CAIS AM NEWID TRWYDDED SAFLE – CANOLFAN CELFYDDYDAU'R PORTH

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Matt Meads, Cyfarwyddwr<br>Mark Rawlings, Rheolwr Archebion |
| Pobl Eraill â Diddordeb: | Y Cynghorydd Sue Lent, Aelod Ward<br>John Beckerton, preswylydd lleol |

Y Cais

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Gate Trust Limited mewn perthynas â Chanolfan Gelf Gate, Keppoch Street, Y Rhath, Caerdydd

Cyflwynwyd y cais i amrywio canlynol:

> Mae'r cais hwn i amrywio'r amseroedd ar y drwydded gyfredol ac i ychwanegu'r ddarpariaeth o luniaeth hwyr y nos fel a ganlyn:
>
> Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:
>
> Dydd Llun i ddydd Iau: 10:00 tan 23:30
> Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 tan 00:30
> Dydd Sul: 10:00 tan 22:30
>
> Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio:
>
> Dydd Llun i ddydd Iau: 09:00 tan 23:30
> Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 09:00 tan 00:30
> Dydd Sul: 09:00 tan 22:30
>
> Darparu lluniaeth hwyr y nos:

Dydd Llun i ddydd Iau: 23:00 tan 23:30
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 23:00 tan 00:30

Oriau agor:

Dydd Llun i ddydd Iau: 09:00 tan 00:00
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 09:00 tan 01:00
Dydd Sul: 09:00 tan 23:00

Ar ddechrau'r cyfarfod, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod yr ymgeisydd wedi derbyn yr holl amodau a argymhellwyd yn sylwadau Heddlu De Cymru. Nodwyd yr amodau cytunedig yn yr adroddiad.

Ceisiodd Mr Beckerton eglurder ar yr oriau a nodwyd yn y cais oherwydd roedd o'r farn bod yr oriau a gytunwyd arnynt rhwng yr ymgeisydd a Heddlu De Cymru, a'r oriau a nodwyd ar yr hysbysiad cyhoeddus yn y safle yn wahanol. Nododd y Swyddogion bod yr oriau yn yr hysbysiad cyhoeddus yn ymwneud ag oriau agor y ganolfan.

Cyflwynodd y Cynghorydd Lent ddeiseb a oedd wedi'i harwyddo gan breswylwyr lleol, a chopi o e-bost yr oedd wedi'i dderbyn ynghylch y cais.

<u>Sylwadau'r Bobl Eraill â Diddordeb</u>

Trafododd Mr Beckerton gyda'r Is-bwyllgor ar ran sawl preswylydd o Keppoch Street a oedd wedi mynegi gwrthwynebiad i'r cais ar ffurf deiseb.

Ystyriodd Mr Beckerton nad oedd yr oriau a oedd wedi'u nodi yn y cais yn addas ar gyfer ardal breswyl. Roedd yr eiddo hwn yn leoliad mawr ac nid oedd llawer o le rhwng yr eiddo a'r preswylwyr lleol. Roedd preswylwyr eisoes yn gorfod dioddef lefelau o niwsans sŵn ac aflonyddu a oedd, yn ôl ef, yn ymwneud â digwyddiadau a chwsmeriaid yr eiddo. Nodwyd pryderon hefyd am faterion parcio yn yr ardal gyfagos.

Rhoddwyd gwybod i aelodau bod gan yr eiddo gapasiti ar gyfer 450 o bobl, ac roedd hi'n bosib iawn y byddai grwpiau mawr o bobl yn gadael yr eiddo am hanner nos, neu hyd yn oed yn hwyrach ar y penwythnos. Ymhellach i hyn, caiff yr offer ei ddatgymalu ar ddiwedd y noson drwy'r fynedfa ochr, ac roedd hyn yn achosi hyd yn oed mwy o aflonyddu i breswylwyr lleol.

Roedd Mr Beckerton o'r farn nad oedd y cais yn briodol.

Nododd y Cynghorydd Lent bryderon ynglŷn â pharcio a thagfeydd, sŵn ceir yn gadael yr eiddo a drysau ceir yn slamio. Disgrifiwyd y cais yn ddiwarant ac yn annerbyniol. Nodwyd bod ysmygwyr yn ymgynnull ar y stryd y tu allan i'r eiddo ac nid oedd modd ymatal y sŵn. Roedd y preswylwyr hefyd yn gorfod dioddef aflonyddu o ran bandiau'n chwarae cerddoriaeth.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

Cyflwynodd Martin Meads y cais. Roedd Mr Meads yn derbyn y pryderon a fynegwyd gan breswylwyr lleol a nododd nad oedd yn ceisio achosi unrhyw

aflonyddu. Fodd bynnag, roedd y safle yn ganolfan gelf gymunedol a oedd yn ceisio ehangu ei rhaglen. Roedd digwyddiadau'n cael eu cynnal dan Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro ond roedd y rhain yn gyfyngedig i 12 digwyddiad y flwyddyn.

Rhoddwyd gwybod i aelodau o'r math o ddigwyddiadau cymunedol a oedd yn cael eu cynnal yn y lleoliad, megis sinema, digwyddiadau i blant a gwyliau celf. Nod y cais oedd ehangu nifer digwyddiadau o'r fath i rhwng 15 ac 20 y flwyddyn. Nid oes llawer o gwynion wedi'u derbyn ynghylch digwyddiadau yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad enw da, ac mae'r cais hefyd wedi rhoi cyfle i adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith mewn partneriaeth gyda Heddlu De Cymru. Ystyriwyd hyn yn 'ymarfer defnyddiol'.

Nododd Matt Rawlings bod Polisi Rheoli Sŵn wedi'i gyflwyno yn yr eiddo er mwyn monitro lefelau sŵn yn ystod digwyddiadau. Rhoddir ystyriaeth ofalus i'r math o ddigwyddiadau a gynhelir yno i sicrhau nad oes unrhyw beth yn 'rhy uchel'. Roedd yr ymgeiswyr yn fodlon ar dderbyn amod a fyddai'n gofyn bod staff drws yn bresennol ar ôl 21.00pm ar noson digwyddiad. Byddai'r staff drws yn gyfrifol am sicrhau bod cwsmeriaid yn barchus tuag at preswylwyr lleol ac yn gadael yr eiddo'n ddistaw.

Cadarnhaodd Matt Rawlings bod yr holl ddrysau a'r ffenestri ar gau pan fo adloniant rheoledig yn cael ei gynnal. Mae cyfleusterau gwrthsain yn y prif ardal berfformio hefyd o gymorth o ran atal sŵn. Bydd y Staff yn ffonio tacsis ar ran cwsmeriaid, ac mae ardal yn y lleoliad ble gall cwsmeriaid aros am dacsi y tu mewn i'r safle.

Rhoddwyd gwybod i aelodau mai un gŵyn am sŵn oedd wedi'i derbyn ynghylch sŵn yn ystod digwyddiad ym mis Ebrill. Gwnaeth staff rheoli'r eiddo ymateb yn syth. Bu i staff leihau lefelau'r sain a gwirio'r lefel hon mewn nifer o leoliadau gwahanol y tu mewn i'r eiddo a'r tu allan iddo.

Nododd Martin Meads na fyddai 90-95% o raglen y Ganolfan Gelf yn cael ei newid. Nid oedd lefelau uchel o gwynion wedi'u derbyn ynghylch y rhaglen gyfredol. Bwriad y cais oedd manteisio ar yr opsiynau sydd ar gael i'r lleoliad ond roedd yr ymgeiswyr yn fodlon ar rai o'r amodau a geisir. Ymrwymodd y byddai'n mynd ar ôl unrhyw broblemau ynghylch niwsans waeth beth fo penderfyniad yr is-bwyllgor.

Gofynnodd Martin Meads p'un ai a oedd y preswylwyr yn gallu dweud â sicrwydd nad oedd yr aflonyddwch sŵn yn dod o safleoedd eraill ar Heol y Plwca, Wellfield Road ac Albany Road.

<u>Crynhoi</u>

Pwysleisiodd Mr Beckerton natur preswyl yr ardal eto a phryderon preswylwyr lleol. Roedd o'r farn y byddai'r cais, os y câi ei gymeradwyo, yn newid natur y safle.

Roedd y Cynghorydd Lent o'r farn na fyddai amodau Heddlu De Cymru yn lleihau'r effaith yr oedd preswylwyr lleol yn ei phrofi os nad oedd unrhyw reolaeth dros nifer y digwyddiadau yn y lleoliad. Roedd materion traffig a pharcio hefyd yn peri pryder.

Nododd Martin Meads ei gais am gynnydd rhannol yn yr oriau gweithredu i alluogi mân gynnydd yn nifer y digwyddiadau. Roedd digwyddiadau'r lleoliad yn seiliedig ar y gymuned, a chydnabuwyd pryderon y gymuned leol. Byddai'r ganolfan yn parhau i geisio lleihau unrhyw niwsans yr oedd preswylwyr lleol yn ei brofi. Roedd y lleoliad

wedi ymrwymo’n llawn i’r amcanion trwyddedu ac roedd yn fodlon ar dderbyn syniadau ynghylch sut i wella pethau i breswylwyr lleol.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi’r Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr is-bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau wedi’u hawgrymu gan Heddlu De Cymru ac wedi’u derbyn gan yr ymgeisydd.

14 : COFRESTRU LOTERI CYMDEITHAS FACH

PENDERFYNWYD - Y dylid diddymu'r cofrestriad a ganlyn gan nad oeddynt wedi talu'r ffi flynyddol:

Ffrindiau Ysgol Y Berllan Deg

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am